Adroddiad Gwerthuso

Cynlluniau Gofal Melin Gruffydd a Treganna
Cyfnod Gwyliau Chwefror, Pasg, Haf a Hydref 2011
Adborth Ffurflenni: Plant, Rhieni a Staff.

Adborth y Plant
Cadarnhaol

- Bu'r daith i Fae Caerdydd 'Play Day' a gafodd ei noddi gan Gyngor Sir Caerdydd yn boblogaidd iawn gyda'r plant
- Wedi mwynhau'r trip i Sŵ Bryste eleni, ac hefyd roedd trip y traeth yn llwyddiannus, o'r diwedd tywydd braf i'r trip
- Roedd y gweithdai reptiliaid ac adar ysglyfaethus yn hynod o boblogaidd gyda'r merched a bechgyn
- Adnoddau newydd: Sumo Suits a Byrddau Pêl Droed wedi plesio'r plant.
- Mwynhau yn arw 'Dydd Llun Gwlyb'
- Elfen gymdeithasol i'r Cynllun yn gyffredinol, a nodir bod y mwyafrif o'r plant yn mynd ati i wneud ffrindiau newydd

Awgrymiadau ar sut i wella

- Meddwl am dripiau sydd yn fwy addas i'r plant hŷn
- Mwy o gemau i'r playstation, Wii a DVDs

Adborth Rhieni
Cadarnhaol

- Y mwyafrif wedi plesio i'r eithaf, yn gweld y cost yn rhesymol dros ben
- Llawer o rhieni yn canmol yr amrywiaeth o weithgareddau, a'r gwahanol dripiau
- Y rhieni di-Gymraeg yn falch fod y plant yn medru dal i ymarfer eu Cymraeg adeg y gwyliau, yn enwedig dros wyliau'r Haf
- Canmolwyd y staff ar ei natur foesgar, gyfeillgar a chroesawgar
- Canmoliaeth i'r rhai aelodau o'r staff yn unigol am eu gwaith caled

Awgrymiadau ar sut i wella

- Rhai rhieni dal yn awgrymu y dylen godi mwy o ffî ar ddiwrnodau'r trip, er mwyn medru cael gwell tripiau a rhai gwahanol
- Yn ddelfrydol, dymuna sawl rhiant ddarpariaeth gofal dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod gwyliau Haf
- Llawer fwy o rieni yn talu gyda thalebau, ac yn falch am y system yma
- Awgrym fod yna bwrdd tennis bwrdd i'r merched gan fod y bechgyn gyda'i bwrdd snwcer

Adborth Staff
Cadarnhaol

- Cysondeb cyflogi staff wedi creu tîm llwyddiannus dros gyfnod o bump/chwe wythnos
- Nifer o blant cynllun Treganna wedi ymgartrefu`n dda yng Nghynllun Melin Gruffydd i'r wythnos olaf
- Gweithgareddau chwaraeon yr Urdd yn llwyddiant, ond angen mwy o amrywiaeth yn y dyfodol gan y plant yn diflasu gyda'r un hen bethau
- Adborth cadarnhaol oddi wrth rhieni'r plant (hen a newydd)
- Hyfforddiant Staff – Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd a Cwrs Chwarae. Cafwyd y cwrs Chwarae ei gynnal gan gwmni Dynamix a mynychodd llawer o'r staff cyn i'r Cynlluniau Gofal yr Haf gychwyn, gwelwyd llawer o'r staff y cwrs o gymorth mawr ac wedi hybu syniadau a gweithgareddau newydd

Awgrymiadau ar sut i wella

- Cael mwy o weithgareddau gwahanol dros yr Haf yn lle gormod o weithdai ffitrwydd
- Meddwl fwy am gael wythnosau themau, mae hyn yn gweithio yn dda. Mi fydd yn bosib gwneud hyn Haf 2012 gyda'r Olympics yn Llundain
- Awgrymwyd fod y staff ychwanegol sydd yn dod mewn ar dripiau yn dod mewn yn hwyrach a gadael ar ôl cyrraedd adre o'r tripiau gan fod gormod o staff yn y Cynlluniau ar ddiwedd y dydd
- Angen mwy o DVDs a gemau Wii newydd
- Angen fwy o amrywiaeth gyda adnoddau chwaraeon, e.e maint gwahanol o beli a spacehoppers

Crynodeb
Sylwadau cyffredinol

- Bu'r dau gynllun yn llwyddiant ysgubol â rieni`n hapus iawn gyda'r gofal gynnigwyd
- Cafwyd dau arolwg gan AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), un yn yr Haf yn Treganna, ac un arall
- yn Melin Gruffydd yn yr Hydref. Cafwyd arolwg ffafriol dros ben yn y ddau gynllun
- Awgrymwyd o'r Arolwg cael dirprwyon i'r arweinwyr, gweithwyr allweddol i blant newydd ac ifanca'r Cynlluniau, hefyd cornel cyffyrddus i'r plant hŷn i eistedd
- Rhoddodd y cwrs chwarae a mynychodd y staff gyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd i'w gweithredu yn y cynlluniau gofal, er mwyn gwella safon y gofal a gynnigwyd, hefyd i ddeall ethos Chwarae yn y Cynlluniau Gofal a Chwarae

Syniadau sydd angen eu hail-ystyried

- Mannau newydd i ymweld ar drip
- Angen i wneud lleoliad Cynllun Melin Gruffydd edrych yn fwy cartrefol, a llai fel ysgol
- Cael gwell cydbwysedd o ran staff profiadol a newydd yn y ddau gynllun, hefyd y rhai sydd gyda chymwyster athro a Lefel 3

Mari Rhys 7/01/12